Mae Homeshare UK yn rhwydwaith bywiog o unigolion sy'n rhannu'r un meddylfryd sy'n teimlo'n angerddol am ddarparu Homeshare mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Rydym yn helpu unrhyw un sydd am ddechrau gwasanaeth Homeshare hefyd gyda chyngor, hyfforddiant ac ymgynghoriaeth bwrpasol. Rydym yn bartneriaid gyda Homeshare International, sy'n cefnogi rhwydwaith o weithwyr proffesiynol ledled y byd.

Mae pob un o'r sefydliadau yn ein rhwydwaith yn fetio, yn paru ac yn goruchwylio pob trefniant Homeshare unigryw ac yn gweithio'n unol â Chanllaw Arferion Da a Fframwaith Sicrwydd Ansawdd Homeshare UK.

> **"Mae'n galonogol iawn gwybod bod rhywun yn cadw llygad ar mam."**
> Merch deiliad tŷ

Dysgwch fwy am Homeshare ar wefan Homeshare UK neu cysylltwch â'n tîm cyfeillgar:

0151 227 3499

www.homeshare.org

contact@homeshare.org

HomeshareUKNetwork

@homeshare_UK

ReRhif Elusen Gofrestredig (Cymru a Lloegr): 1095562
Rhif Elusen Gofrestredig (Yr Alban): SC042743
Rhif Cwmni: 4511426
Rhif TAW: 302 6201 63

shared lives plus

Allai Homeshare fod o fudd i chi?

Gyda'i gilydd, mae deiliaid tai a rhanwyr cartrefi'n rhannu bywyd cartref, amser, sgiliau a phrofiad.

Mae sefydliadau Homeshare yn dod ynghyd â phobl ag ystafelloedd sbâr a phobl sy'n hapus i sgwrsio a rhoi help llaw o amgylch y tŷ yn gyfnewid am lety fforddiadwy a chymdeithasol.

> "I"**"Mae wedi rhoi persbectif newydd i mi ar fywyd ac er fy mod i'n casáu cyfaddef bod angen ychydig o help ychwanegol arna i o amgylch y tŷ – dwi ddim yn mynd ddim iau!"**
> Deiliad tŷ

HomeshareUK HS UK
THE UK NETWORK FOR HOMESHARE

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Fel deiliad tŷ, efallai fod angen ychydig o help o amgylch y tŷ neu'r ardd arnoch chi, rhywun i fynd â chi i'r siopau neu efallai'ch bod am gael rhywun yno i rannu pryd o fwyd a sgwrs. Gallai rhanwyr cartrefi fod yn newydd i ddinas, neu'n astudio ac yn chwilio am gartref diogel a fforddiadwy.

> **"Mae rhannu cartref gyda Wendy wedi bod yn benderfyniad sydd wedi trawsnewid pethau i mi. Mae wedi gwella fy annibyniaeth i ac wedi rhoi'r cyfle i mi fyw mewn dinas nad oeddwn i'n meddwl y byddwn yn gallu aros ynddi ar ôl graddio."**
> Rhannwr cartref



Mae pob pâr Homeshare yn cael cefnogaeth eu sefydliad Homeshare lleol, sy'n eu dewis a'u cymeradwyo ac yn paru eu diddordebau, eu ffordd o fyw a'u hobïau'n unigol. Cyflawnir gwiriadau diogelwch ac aelwyd a rhoddir cymorth parhaus i'r ddau berson sy'n cael eu paru.

Nid gwasanaeth rhentu yw rhannu cartref felly nid yw'r rhannwr cartref yn talu rhent. Yn hytrach, mae biliau'r cartref yn cael eu rhannu'n deg. Bydd y rhannwr cartref a'r deiliad tŷ yn talu ffi i'w sefydliad Homeshare lleol i dalu costau eu gwasanaeth a'u cymorth.

Mae pob sefydliad Homeshare yn aelod o Homeshare UK, rhwydwaith Homeshare y DU, ac yn derbyn cefnogaeth Shared Lives Plus, rhwydwaith y DU ar gyfer rhannu byw.

Pam dewis Homeshare?

- Mae'n eich helpu i aros yn annibynnol gartref am fwy o amser (Preswylwyr)
- Mae'n cynnig llety fforddiadwy ar adeg o brinder tai heb ei debyg a rhent uchel (Rhanwyr Cartrefi)
- Mae'n rhoi tawelwch meddwl i chi a'ch anwyliaid

> **"Mae'n ateb synnwyr cyffredin sy'n mynd i'r afael â dwy broblem mewn ffordd greadigol ar yr un pryd. Mae unigrwydd yn broblem gudd yn ein cymunedau, ac yn ogystal â darparu mwy o gartrefi, bydd y cynllun hwn yn darparu cwmnïaeth ac yn dod â chenedlaethau gwahanol at ei gilydd."**
> Aelod o'r Cabinet dros Ofal ac Iechyd Oedolion

Mae Homeshare yn dod i Gymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu prosiect tair blynedd sy'n cynnwys datblygu rhwydwaith Homeshare yng Nghymru.

Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau yng Nghymru i sefydlu tri chynllun peilot gyda'r bwriad o ddod yn gynaliadwy erbyn trydedd flwyddyn y prosiect.

Os hoffech wybod mwy, cysylltwch â:

Tim Crahart - Swyddog Datblygu Homeshare Cymru

07867 452 159

tim@sharedlivesplus.org.uk